



autism spectrum  
connections cymru



### **Rwyf ar y rhestr aros i gael diagnosis o awtistiaeth. A allaf dderbyn cymorth gan ASCC?**

Ar hyn o bryd, dim ond unigolion sydd eisoes wedi cael diagnosis o awtistiaeth y gall ASCC eu cefnogi.

### **A yw ASCC yn cynnal asesiadau diagnostig awtistiaeth?**

Nid yw ASCC yn cynnal asesiadau diagnostig awtistiaeth. Cysylltwch â'ch Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Lleol i gael rhagor o wybodaeth am dderbyn diagnosis.

### **A all ASCC fy helpu i chwilio am fflat?**

Gall ein tîm budd-daliadau gefnogi unigolion gyda materion yn ymwneud â thai cymdeithasol. Sylwch nad oes gennym y gallu ar hyn o bryd i gefnogi unigolion sy'n chwilio am lety rhent preifat.

### **Hoffwn gael cefnogaeth gan ASCC, ond nid wyf yn byw yng Nghaerdydd ac ni allaf deithio yno. A all ASCC fy nghefnogi o bell?**

Oes, gallwn eich cefnogi o bell yn llwyr. Gallwn gynnig cymorth dros y ffôn, drwy e-bost, a thrwy Microsoft Teams. Cysylltwch â ni os oes gennych chi ofynion cyfathrebu penodol – byddwn ni'n gwneud popeth o fewn ein gallu i ddarparu ar eu cyfer.

### **A all ASCC gefnogi fy mhlentyn o dan 16 oed?**

Dim ond unigolion 16 oed neu hŷn y gall ASCC eu cefnogi.

### **A yw ASCC yn cynnig cymorth eiriolaeth?**

Mae ASCC yn falch o gynnig cefnogaeth eiriolaeth mewn materion yn ymwneud â budd-daliadau. Er enghraifft, gall ein tîm budd-daliadau fod yn gynrychiolydd i chi yn ystod tribiwnlysoedd Taliad Annibyniaeth Bersonol (PIP).

### **Oes angen i mi drefnu apwyntiad i ymweld ag ASCC yn 21 Stryd Fawr?**

Oes. Gwasanaeth apwyntiad yn unig yw ASCC. Cysylltwch â ni i drefnu apwyntiad gydag un o'n Swyddogion Budd-daliadau neu Gyflogaeth. Nid oes angen i chi archebu lle i fynychu ein grwpiau cymdeithasol neu sesiynau galw heibio.

### **Pwy all gyfeirio unigolyn at ASCC?**

Unrhyw un. Cysylltwch â ni os hoffech wneud atgyfeiriad drosoch eich hun neu unigolyn y credwch y byddai'n elwa o'n cymorth.

### **Ydy ASCC yn ymweld â chartrefi?**

Mae ASCC yn dîm bach, ac nid oes gennym y gallu i ymweld â chartrefi ar hyn o bryd. Rydym yn cynnig cymorth o bell.

### **Unrhyw gwestiynau eraill? Cysylltwch â ni trwy ein ffurflen gyswllt gwefan**

